**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol**

**Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol, a gynhaliwyd 9 Mawrth 2022**

## 1. Yn bresennol:

Vikki Howells AS (Cadeirydd), Cwm Cynon; Robin Lewis, Swyddfa Vikki Howells AS; Huw Irranca-Davies AS, Ogwr; David Rees AS, Aberafan; Sioned Williams AS, Gorllewin De Cymru; Y Cynghorydd David White, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; Y Cynghorydd Jayne Brencher, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; Y Cynghorydd Gareth Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; Y Cynghorydd Graham Thomas, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; Peter Slater (Ysgrifennydd), Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru; Joan Dixon, Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol, y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol; Danny Grehan, Swyddfa Heledd Fychan AS; Liz Hill O'Shea, Swyddfa Dr Altaf Hussein AS; Elin Hywel, Swyddfa Mabon Ap Gwynfor AS; Ellie Richards, Swyddfa Luke Fletcher AS; Ryland Doyle, Swyddfa Mike Hedges AS; Ioan Bellin, Swyddfa Rhys Ab Owen AS: Alexander Still, Swyddfa Hefin David AS; Sharon James, Coleg Caerdydd a'r Fro.

## 2. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Anthony Hunt, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

## 3. Croeso

Croesawodd Vikki Howells AS, y Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod, a dechreuodd wrth sôn am y Cynghorydd Graham Thomas, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a oedd yn ymddeol yn yr etholiad nesaf. Ar ran y Grŵp, diolchodd i'r Cynghorydd Thomas am ei gyfraniadau rheolaidd i'r Grŵp Trawsbleidiol ac am ei flynyddoedd lawer o wasanaeth yn cynrychioli ei gymuned. Aeth ymlaen i ddymuno pob lwc i gynrychiolwyr y Cyngor ar y Grŵp Trawsbleidiol yn yr etholiadau llywodraeth leol sydd i ddod.

## 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2021

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2021 yn gywir.

## 5. Papur Gwyn Codi’r Gwastad

Rhoddodd Peter Slater, Cyfarwyddwr Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru, adroddiad byr o’r Papur Gwyn Codi’r Gwastad hirddisgwyliedig, y dywedodd ei fod yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl a gwrthrychol o natur a graddfa’r rhaniad economaidd

rhanbarthol, a oedd wedi'i grynhoi yn y nod Llywodraeth y DU i *'Dorri'r cysylltiad rhwng daearyddiaeth a thynged.'* Aeth ymlaen i roi crynodeb o sut yr oedd Llywodraeth y DU yn anelu at gau'r bwlch ffyniant drwy hyrwyddo'r chwe chyfalaf fel y'u gelwir: dynol; ariannol; anniriaethol (syniadau ac arloesedd); ffisegol; sefydliadol; a chymdeithasol.

Fodd bynnag, er gwaethaf uchelgais glir a diamwys y Papur Gwyn, rhoddodd wybod am anghysondeb rhwng y dadansoddiad a'r atebion arfaethedig, yn enwedig o ran adnoddau a'r amserlen afrealistig. At hynny, roedd y Papur Gwyn yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar Loegr, a byddai defnyddio'r Ddeddf Marchnad Fewnol a ddaeth i rym yn ddiweddar yn arwain at Lywodraeth San Steffan yn gwario arian ar faterion datganoledig megis addysg, iechyd a thai. Roedd pryderon difrifol eraill hefyd ynghylch y ffaith bod penderfyniadau'n cael eu canoli yn Llundain a bod Llywodraeth Cymru yn cael ei gwthio i'r cyrion, a bod hyn, ymhlith materion eraill, yn codi materion o ran atebolrwydd a chraffu.

I gloi, dywedodd y byddai dyfarniad terfynol y Papur Gwyn yn dibynnu'n rhannol ar y manylion cyflawni a dyrannu sydd heb eu cyhoeddi eto ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin a Chronfa Codi'r Gwastad y DU.

**6. Sgiliau ar gyfer Dyfodol Carbon Isel: Sharon James, Dirprwy Bennaeth Coleg Caerdydd a'r Fro**

Croesawodd y Cadeirydd Sharon James, Dirprwy Bennaeth Coleg Caerdydd a'r Fro, i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Sharon yr eitem ar rôl buddsoddi mewn sgiliau wrth sicrhau dyfodol carbon isel, gan amlinellu'r mentrau presennol sy'n cael eu datblygu a'u cyflwyno yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, a oedd yn cynnwys y prif negeseuon a ganlyn:

- Dywedodd y Tasglu Swyddi Gwyrdd fod gan bob swydd y potensial i ddod yn 'wyrdd', gan nodi 366 o deitlau swyddi "gwyrdd" oherwydd eu bod yn gysylltiedig â sectorau megis cadwraeth, yr amgylchedd, effeithlonrwydd ynni, ailgylchu, ynni adnewyddadwy, pŵer solar, cynaliadwyedd a dŵr/dŵr gwastraff;
- Mae tua 80 y cant o bobl a fydd yn gweithio yn y DU yn 2030 eisoes yn gweithio heddiw, a bydd angen newid trawsnewidiol i gyrraedd targed 2050;
- Gallai buddsoddi mewn prosiectau seilwaith allweddol, diwydiannau gwyrdd ac adfer natur greu o leiaf 45,000 o swyddi uniongyrchol a thros 60,000 o swyddi erbyn 2022;
- Gallai rhaglen ôl-osod tai fod yn newid sylweddol i economi Cymru;
- Mae angen ail-lunio sgiliau yng nghyd-destun sero net drwy: ddadansoddi'r galw a'r cyflenwad sectorol; creu hyfforddiant a chymwysterau sy'n bodloni'r bylchau sgiliau hyn; buddsoddi mewn seilwaith hyfforddi i ddatblygu hyfforddiant o ansawdd uchel a chreu ffrwd dalent; hyrwyddo cyfleoedd gwaith sy'n ddeniadol i'r rhai sy'n

dymuno uwchsgilio ac i newydd ddyfodiaid; cymell gweithgynhyrchwyr a chyflogwyr.

- Creu cynllun sgiliau i gynnwys: ehangu safonau hyfforddi/prentisiaethau/cymwysterau; cydgysylltu darparwyr hyfforddiant/colegau/prifysgolion; datblygu rhaglenni uwchsgilio achrededig o ansawdd uchel; cysylltu â chyflogwyr, Cymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu strategaeth sgiliau gyson wedi'i hategu gan gyllid a buddsoddiad mewn technolegau newydd.
- Mae datblygiadau newydd yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro yn cynnwys: Academi werdd; cwrs sero net lefel 3 ar gyfer pob dysgwr galwedigaethol; creu academïau blaenoriaeth sgiliau sector yng Nghymru a chanolfannau rhagoriaeth ddiwydiannol.
- Yr angen i greu talent a sgiliau o'r radd flaenaf o 14 oed a hŷn.

Agorodd y Cadeirydd y drafodaeth gan gyfeirio at baradocs diweithdra uchel ymysg pobl ifanc yn ei hetholaeth ac adroddiadau am brinder llafur, gan ofyn a oedd colegau eraill yn dilyn llwybr tebyg i Goleg Caerdydd a'r Fro. Ymatebodd Sharon James gan ddweud bod y rhan fwyaf o golegau'n weithgar, gan gyfeirio at gyrsiau arbenigol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot drwy enghreifftiau, ac ychwanegodd fod potensial i rannu adnoddau a bod angen i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru roi arweiniad. Cododd y Cynghorydd Jayne Brencher fater grantiau ar gyfer ail-hyfforddi a mynediad at brofiad gwaith o safon, a oedd yn anodd cael mynediad ato mewn rhannau o'r Cymoedd. Mewn ymateb, cyfeiriodd Sharon James at y cyfrifon dysgu personol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r angen i fewnfuddsoddwyr 'roi rhywbeth yn ôl' o ran sgiliau a hyfforddiant.

Galwodd Huw Irranca-Davies AS am ddull cydgysylltiedig i ledaenu'r 'cynnig' i golegau eraill, a chododd y mater penodol o sicrhau bod y cyflenwad a'r galw am sgiliau yn cyfateb mewn ymateb i'r technolegau newydd. Cyfeiriodd hefyd at yr angen am asesiadau sgiliau o ansawdd gwell. Cydnabuwyd bod sicrhau bod y cyflenwad a'r galw yn cyfateb yn anodd, er bod academïau'r sector yn datblygu cysylltiadau cryf â chyflogwyr, ac roedd asesiadau sicrhau ansawdd a gynhaliwyd gan weithgynhyrchwyr yn rhan o'r broses achredu dysgu. Cyfeiriwyd hefyd at rôl llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo a chymell technolegau gwyrdd, er enghraifft, mentrau tai cymdeithasol. Yn olaf, cyfeiriodd y Cynghorydd Graham Thomas at effaith yr ardoll hyfforddi flaenorol fel cymhelliad i fuddsoddi mewn hyfforddiant, ynghyd â'r angen i feithrin gallu ym maes gweithgynhyrchu.

Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn falch o nodi bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran ymateb i'r agenda ddi-garbon, a bod y gwaith o ehangu yn elwa o'r fframwaith ariannol a pholisi ffafriol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Diolchwyd i Sharon James am ei chyflwyniad llawn gwybodaeth oedd yn ysgogi'r meddwl.

Peter Slater
Ysgrifennydd

18/3/2022